Pennaeth Data a Dadansoddi

Rôl y Pennaeth Data a Dadansoddi yw sicrhau bod dadansoddi, data a barn y gynulleidfa wrth wraidd yr holl benderfyniadau strategol a golygyddol pwysig a gymerir.

Bydd deiliad y swydd yn gyfrifol am uned sy'n gyfrifol am:

- data BARB
- data gwerthfawrogiad
- ymchwil tracio delwedd
- data Fy S4C
- data cyfryngau cymdeithasol, gwylio ar-lein a gwefannau
- ymchwil ansoddol o bob math

Mae ffocws ar y dyfodol yn hanfodol, felly disgwylir person sy'n agored i ffyrdd newydd a diddorol o fesur defnydd cyfryngau a barn y gynulleidfa. Person sy'n cymryd diddordeb mewn datblygiadau ym maes ymchwil a mesur, ac sy'n ymwybodol o newidiadau mewn darlledu a diwydiannau cysylltiedig ac yn dymuno rhannu dadansoddi a dysgu ar draws y sefydliad.

Pwrpas y swydd

- I sicrhau fod y cwmni yn cadw anghenion y gynulleidfa wrth galon eu gwaith.
- Gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid perthnasol i drafod mesuriadau perfformiad gyda Bwrdd Unedol S4C a staff S4C. Cytuno mesuriadau perfformiad ar draws y busnes.
- Sicrhau cydweithio a chydweithrediad yn fewnol a gyda chyrff eraill, fel BBC Cymru, BARB, a'r sector gynhyrchu.
- Arwain a datblygu talent o fewn y tîm, gan sicrhau fod adnoddau yn cael eu rhannu yn ôl gofynion y busnes, wrth gadw gwasanaeth dadansoddi a data chyson ar gyfer randdeiliaid.

Fe fydd deilydd y swydd yn adrodd i'r Prif Weithredwr a bydd yn gyfrifol am reoli oddeutu 3 o staff llawn amser.

Swydd Disgrifiad

- I gynllunio a rheoli data a dadansoddi ar draws S4C a chydweithio gyda phrif randdeiliaid i sicrhau fod ymchwil yn ychwanegu gwerth ac yn cwrdd ag anghenion busnes S4C, a bod yr ymchwil yn cael ei gynnal mewn modd effeithiol ac ymarferol.
- I adrodd yn amserol yn reolaidd i staff S4C, Bwrdd Unedol a Tim Rheoli S4C, gydag adroddiadau ysgrifenedig cywir a chlir am berfformiad gwasanaeth S4C a sianeli eraill. Bydd hyn yn cynnwys data BARB, (Broadcasters's Audience Research Board), data am wylio arlein, a data cyfryngau cymdeithasol.
- I sicrhau fod y paneli a'r gwasanaethau sy'n bwydo gwybodaeth i S4C yn gweithio'n effeithiol a bod dealltwriaeth yn S4C am fesuriadau ymchwil a'r dehongliad cywir ohonynt.
- Byddwch yn casglu data a gwybodaeth at ei gilydd ar gyfer darparu i gyrff allanol.
- Wrth ddatblygu cynlluniau a chynnwys newydd, sicrhau mewnbwn gan data a dadansoddi ar adegau ble mae modd gwneud gwahaniaeth.
- Datblygu dealltwriaeth ragorol o anghenion y gynulleidfa, a darparu cyngor yn gyson mewn modd rhagweithiol i bobl sy'n gwneud penderfyniadau.
- Datblygu dulliau newydd ymchwil i gefnogi'r strategaeth hirdymor.

- Comisiynu prosiectau allanol fel bo'r galw, cysylltu gyda chyrff allanol a phartneriaid a rheoli prosiectau'n effeithiol gan ddefnyddio safonau'r diwydiant ac ymarfer gorau.
- Yn gyfrifol am sicrhau ansawdd a safon yr ymchwil, data a dadansoddi a gynhelir.
- Gweithio gyda thimoedd Comisiynu, Cyfathrebu a Chynllunio i sicrhau dealltwriaeth gyflawn o gynulleidfa S4C a'r sawl nad sy'n gwylio - ar draws amryw lwyfannau.
- I fod yn gyfrifol am waith yr uned yn bwydo gwybodaeth fanwl a chywir i staff S4C, Bwrdd Unedol S4C a'r ochr fasnachol am berfformiad S4C a chyd-destun ehangach y perfformiad hynny.
- I arwain y tîm drwy sicrhau ymarfer gorau ym mhob maes drwy alw ar arbenigedd yn ôl y galw, a chael mynediad at becynnau dadansoddi addas i gyflawni'r gwaith.
- I ysgogi tîm aml-ddigyblaethol, gan sicrhau fod staff yn cael eu harwain yn effeithiol gyda dealltwriaeth glir o'u hamcanion.
- Rheoli cyllideb yr uned a chyfathrebu am wariant yn glir i swyddogion perthnasol.
- Cadw llygad ar strategaeth cystadleuwyr ac adrodd yn ôl.
- I gadw'n ymwybodol o ddatblygiadau ym maes ymchwil cynulleidfa a dadansoddi, a sefydlu cysylltiadau defnyddiol gydag eraill yn y maes.
- I sicrhau fod y perthynas o fewn y tîm a gyda thimoedd eraill yn gryf ac yn effeithiol.
- I reoli cyfathrebu'r allbwn data a dadansoddi i randdeiliaid - ac i gyflwyno'r canlyniadau mewn modd defnyddiol ac ysbrydoledig.

Manyleb Person

Nodweddion	Hanfodol	Dymunol
Profiad	• Profiad o weithio gydag amryw ffynonellau gwybodaeth a'u cyfuno i greu adroddiadau clir a dealladwy i gynulleidfaoedd gwahanol • Profiad o fod wedi arwain tîm o bobl ymchwil proffesiynol • Profiad o reoli perthynas gyda randdeiliaid ar lefel uchel • Profiad o flaenoriaethu gan ddefnyddio criteria clir a rheoli disgwyliadau rhanddeiliaid • Profiad o ddatblygu tîm neu wasanaeth a rhoi arweiniad strategol • Profiad o reoli cyllidebau • Profiad o reoli prosiectau	Profiad o weithio gyda data BARB Profiad o weithio gyda data personol Profiad o dendro gwasanaethau Profiad o fodelu rhagolygon data (forecasting) gan ddefnyddio dulliau ystadegol i wneud hynny
Sgiliau a gwybodaeth	• Gwybodaeth fanwl am dechnegau ymchwil amrywiol gan gynnwys anghenion darlledwyr /darparwyr cynnwys / cyfryngau ar-lein. • Dealltwriaeth gadarn o ddulliau dadansoddi, ac ymchwil feintiol ac ansoddol. • Y gallu i ddyfeisio ffyrdd newydd o wella manteisio ar ddata, adnabod mewnwelediadau a chyflwyno	

	gwybodaeth mewn ffordd ysgogol i gael yr effaith fwyaf posibl. • Dealltwriaeth dechnegol o fesur cyfryngau a data ar draws lwyfannau gwahanol • Dealltwriaeth gyffredinol o fyd cyfryngau neu ddarlledu • Sgiliau cryf ym meysydd cyflwyno, negydu a rheoli amser • Y gallu i gyfathrebu'n rhugl yn y Gymraeg a Saesneg (ar lafar ac yn ysgrifenedig) • Y gallu i gyflawni gwaith yn gywir ac yn fanwl • Y gallu i weithio ar nifer o brosiectau ac i flaenoriaethu gwaith • Profiad o ddelio'n gyfrinachol â materion sensitif. • Gwybodaeth gadarn o egwyddorion GDPR	
Nodweddion personol	• Personoliaeth sy'n gallu gweld y darlun mawr ac sy'n ystyried hynny wrth ymateb i geisiadau. • Y gallu i ddehongli data cymhleth a'i grynhoi yn syml i gynulleidfaoedd gwahanol. • Agwedd dadansoddol a phroffesiynol, a'r gallu i asesu gwerth syniadau a gwybodaeth. • Y gallu i ddewis rhwng ystod eang o ddata a gwybodaeth berthnasol, ac adnabod tueddiadau a phatrymau. • Sgiliau rhyngbersonol a chyfathrebu rhagorol, a'r gallu i wrando ar eraill a dylanwadu'n gadarnhaol ar randdeiliaid. • Sgiliau arwain tîm, gyda ffocws ar ganlyniadau cadarn a chefnogi staff. Gosod safonau perfformiad uchel i'w hun ac eraill. • Sgiliau cynghori eraill ac awgrymu syniadau. • Creadigol ac agored i syniadau newydd. • Hyderus mewn sefyllfaoedd heriol, gyda'r gallu i resymu a bod yn gadarn	

Manylion eraill

Lleoliad: Canolfan S4C Yr Egin, Caerfyrddin, SA31 3EQ. Mae S4C yn cynnig trefniadau gweithio'n hyblyg.

Cyflog: Cystadleuol

Cytundeb: Parhaol

Oriau gwaith: 35.75 yr wythnos ond oherwydd natur y swydd disgwylir hyblygrwydd, gan gynnwys gweithio tu allan i oriau swyddfa, ar rai penwythnosau a gwyliau banc.

Cyfnod prawf: 6 mis

Gwyliau: Yn ychwanegol i'r gwyliau banc statudol, bydd gennych hawl pro rata i 26 diwrnod o wyliau gyda thâl y flwyddyn.

Pensiwn: Mae hawl gan staff cyflogedig ymuno â Chynllun Pensiwn Personol Grŵp yn ddarostyngedig i delerau unrhyw gynllun sydd mewn bodolaeth ac a ddiwygiwyd o dro i dro. Os byddwch yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Personol Grŵp, bydd S4C yn cyfrannu 10% o'ch cyflog sylfaenol i'r Cynllun. Disgwylir i chi gyfrannu 5%.

Ceisiadau

Dylid anfon ceisiadau erbyn 12:00 y prynhawn ar ddydd Gwener 26 Gorffennaf 2019 at adnoddau.dynol@s4c.cymru neu Adnoddau Dynol, Canolfan S4C, Yr Egin, Caerfyrddin, SA31 3EQ. Nid ydym yn derbyn CV.

Cyfle Cyfartal ac Amrywiaeth

Nid yw S4C yn caniatáu gwahaniaethu ar sail rhyw, hil, lliw, anabledd, cefndir ethnig neu economaidd-gymdeithasol, oedran, amgylchiadau teuluol, statws priodasol neu bartneriaeth sifil, gweithwyr amser llawn neu ran-amser, crefydd, safbwynt gwleidyddol, cyfeiriadedd rhywiol, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, defnydd ar iaith (heblaw lle bo'r gallu i gyfathrebu yn Gymraeg yn hanfodol i'r swydd) neu wahaniaeth amherthnasol arall ac mae'n ymroi i weithio gydag amrywiaeth mewn ffordd gadarnhaol.

Mae S4C yn croesawu ac yn annog ceisiadau gan grwpiau o bobl sydd wedi'u tangynrychioli, gan gynnwys grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a phobl ag anableddau. Bydd egwyddorion cystadleuaeth deg ac agored yn berthnasol a phenodir ar sail teilyngdod.